

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Dinas, Sir Benfro) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2024

The A487 Trunk Road (Dinas
Cross, Pembrokeshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2024

Gwnaed 22 Ionawr 2024
Yn dod i rym 28 Ionawr 2024

Made 22 January 2024
Coming into force 28 January 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Dinas, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Ionawr 2024.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Dinas Cross, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 28 January 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 28 Ionawr 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r gogledd o’i chyffordd â Bryngelli hyd at bwynt 170 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Gae Tabor yn Ninas, Sir Benfro.

Cymhwyso

4. Ni fydd gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Dinas, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023(1) wedi ei ddirymu.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Ionawr 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 08:00 hours on 28 January 2024 and ending when the temporary traffic signs are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road at Dinas Cross, Pembrokeshire that extends from a point 20 metres north of its junction with Bryngelli to a point 170 metres south of the centre-point of its junction with the road leading to Cae Tabor.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Revocation

5. The A487 Trunk Road (Dinas Cross, Pembrokeshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023(1) is revoked.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 January 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government